CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 9fed o Ragfyr 2024** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

YN BRESENNOL :
Cyng. Terry Jones - Cadeirydd

Cyng. Arwel Môn Hughes
Cyng. Richard Parry
Cyng. Victor Hughes
Cyng. Christine Roberts
Cyng. R. Alwyn Parry

HEFYD YN BRESENNOL :
Cynghorydd Sir : Nicola Roberts

Clerc : Mr. H. Rhys Parry **Cymhorthydd :** Ms. Linda Powell

Cyfarfod yn cael ei Recordio

Cadeirydd yn croesawu'r Aelodau i'r Cyfarfod Llawn a mynegwyd cydymdeimlad diffuant i Cyng. Margaret Thomas ar ei cholled drist.

24/195 Ymddiheuriadau : Cyng. Eleri Ll. Burns, Cyng. Margaret Thomas, Cyng. J. Egryn Lewis, Cyng. Non W. Parry, Cyng. John Lee, Cyng. Henry Jones, Cyng. J. Huw Owen, Cyng. Gwenan Ll. Evans, **Cynghorydd Sir :** Dylan Rees, Geraint Bebb. Non Dafydd.

24/196 Datganiad o Ddiddordeb : Dim

24/197 Heddlu Gogledd Cymru : Dim Cynrychiolydd.
1 Clerc yn adrodd fod Swyddogion yn parhau i alw yn y Swyddfa o bryd i'w gilydd.

24/198 I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 11.11.2024
Cyng. Arwel Môn Hughes yn Cynnig a Cyng. Alwyn Parry yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

24/199 I Ystyried Materion yn Codi o Gofnodion 11.11.2024 :
1 Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod os oes materion yn codi o'r Cofnodion uchod. Clerc yn cadarnhau fod dim cyfathrebu trwy'r Swyddfa.

24/200 Cynllunio
1 **I Dderbyn Cofnodion Pwyllgor Cynllunio 11.11.2024 :** Cyng. Alwyn Parry yn Cynnig a Cyng. Richard Parry yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion.

24/201 **I Dderbyn Argymhellion Pwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae 18.11.2024 :** Cadeirydd yn adrodd fod y Cyfarfod uchod wedi mynd ymlaen er gwaethaf dau Aelod yn bresennol. Nodwyd nad oedd Cofnodion ffurfiol wedi cofnodi oherwydd bod dim Quorum, ac er gwybodaeth yn unig oedd y Cyfarfod. Cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor uchod wedi'i drefnu ar gyfer 17eg o Chwefror 2025. Dim trafodaeth bellach.

24/202 **I Dderbyn Argymhellion Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol 02.12.2024 :** Cyng. Arwel Môn Hughes yn Cynnig a Cyng. Christine Roberts yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion.

24/203 **Sedd Wag – Ward Cefni :**
Cadeirydd yn adrodd fod Cyng. Ieuan Davies wedi anfon e-bost i'r Swyddfa yn ymddiswyddo oherwydd rhesymau personol, fel Cynghorydd Tref ar Ward Cefni. Clerc yn cadarnhau bydd llythyr o ddiolch yn cael ei anfon at Mr. Davies a bydd y Sedd Wag yn cael ei hysbysebu yn y flwyddyn newydd. Dim trafodaeth. **Derbyn**

24/204 **I Dderbyn Unrhyw Gyfathrebion y Maer :**
Y Maer, Cyng. Terry Jones yn adrodd ar y canlynol :

1 **Cyngerdd Maer y Dref - Noson o Adloniant Nos Wener 07.02.2025 :** Tocynnau £10.00 yr un - cysylltwch â'r Maer i archebu tocynnau - Elusen Dementia. Cadeirydd yn diolch i'r rhai sydd eisoes wedi prynu tocynnau.

2 **Cystadleuaeth Arddangosfa Ffenestr Nadolig 2024 :**
Enillwyr : Gwobrau fel a ganlyn : 1af : Siop Flodau, Stryd y Bont;
2ai : Siop Cain;
3ydd : Barbwr Cefni.
Placiau gwobr wedi'i cyflwyno gan y Maer i'r enillwyr.

3 **Noson Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen - 29.11.2024 :** Noson lwyddiannus iawn wedi'i gefnogi'n dda gan bobl leol. Llawer o ganmoliaeth am yr Achlysur.

4 **Gwasanaeth "Tree of Lights" : Clwb Rotari Llangefni 12.12.2024 :** Cyng. Richard Parry, Dirprwy Faer fydd yn cynrychioli'r Cyngor Tref ac yn rhoi goleuadau'r goeden ymlaen. Adloniant y noson yn cynnwys Côr Bara Brith a Phlant Ysgol Henblas yn canu caneuon y Nadolig.

24/205 **Materion yn Codi Gan Aelodau : Dim**

24/206 **Adroddiad y Clerc :**
Diweddariad gan y Clerc ar y canlynol:

1 **Fynwent Lon Newydd :** Oherwydd bod plotiau yn brin, awgrymwyd codi'r llwybrau rhwng dwy adran o'r Fynwent i greu mannau claddu ychwanegol. Mae Contractwr wedi cyflwyno amcan bris o £3,000.00 am y gwaith yma a'r Clerc yn datgan ei fod yn edrych ar opsiynau gwahanol. Yn unol â'r uchod, Clerc yn rhoi gwybod fod y Tirmon yn fodlon gwneud y gwaith yma i arbed arian i'r Cyngor Tref. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i'r Tirmon fynd ymlaen a'r gwaith ar yr amod fod yn ddiogel iddynt wneud hyn. **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc weithredu ar yr uchod.

PARHAD 24/206

2 **Cae Criced :** Gwaith ar y gweill i dorri tair coeden ar derfyn y cae yn dilyn cadarnhad o berchnogaeth y coed. Swyddog o Gyngor Sir Ynys Môn yn ymwybodol o'r uchod ac wedi cyfathrebu gyda'r Swyddfa a'r Arbenigwr Coed cyn mynd ymlaen a'r Gwaith. Amcan bris o £1,800 wedi'i dderbyn i wneud y gwaith uchod. Dim trafodaeth bellach.

3 **Cymdeithas Elusennol Ynys Môn : Cronfa Lle Da :** Cais grant ar gyfer Canol Trefi wedi'i gyflwyno fel cymorth ariannol tuag at wariant adnewyddu Capel y Fynwent, archebu Offer Chwarae Newydd, gwaith i'r Gylchfan a.y.b.,

4 **Gwasanaeth Carolau Nadolig yn Gapel y Fynwent : 16.12.2024 :** Posteri wedi'i dosbarthu o gwmpas y dref yn hysbysebu'r Achlysur. Bu hefyd yn gyfle i weld y Capel yn dilyn gorffen y gwaith trin.

5 **Afon Cefni :** Yn dilyn y stormydd diweddar bu coeden fawr ddisgyn ar draws yr Afon a bydd angen craen i'w symud. Swyddog o'r Cyngor Sir wedi ymweld â'r Swyddfa i drafod pwy sy'n gyfrifol am glirio'r goeden a'r brigau coed o amgylch i ddiogelu'r ardal. Yn dilyn ymweliad safle gan Gynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru, gobeithiwn byddent yn rhannu'r gwaith a'r gost gyda'r Cyngor Tref a'r Cyngor Sir. Hefyd bu difrod i goed eraill o amgylch yr ardal yma sydd erbyn hyn wedi cael eu clirio.
Yn dilyn o'r uchod, Clerc yn adrodd ymhellach fod gweledigaeth y Camerâu CCTV o adran Neuadd y Dref tuag at Siop Iceland, wedi goleuo a gwella'n fawr iawn yn dilyn y gwaith uchod.

6 **Parc Sglefrio :** Difrod storm i'r goleuadau llifoleuadau. Trydanwr wedi bod ar y safle i ddiogelu'r goleuadau. Bydd angen edrych ar gost i ailosod y goleuadau yn y flwyddyn newydd.

7 **Cau'r Swyddfa ar gyfer y Nadolig :** Swyddfa yn cau Dydd Llun 23ain o Ragfyr 2024 ac yn ail-agor Dydd Iau 2il Ionawr 2025. Bydd y Clerc ar gael mewn argyfwng a'r Tirmon yn casglu ysbwriel a gwagio'r biniau yn ysbeidiol.

Cadeirydd yn diolch i'r Clerc am ei Adroddiad

24/207 Adroddiad Pwyllgorau Allanol :
Dogfennau yn atodol i Becyn y Rhaglen Llawn, er gwybodaeth, ar gyfer y canlynol :

1 **03.12.2024 : Cyfarfod Grŵp Adfywio Llangefni - Cofnodion 24.09.2024;**
2 **10.12.2024 : Cyfarfod Fforwm Cynghorau Thref a Chymuned – Cofnodion 19.09.2024**
3 **26.11.2024 : Cyfarfod Coleg Menai Llangefni – Er Gwybodaeth.**

24/208 Cyllid :
I Dderbyn Mantolen Ariannol Mis Tachwedd 2024 :

1 Cadeirydd yn adrodd, oherwydd pwysa Gwaith, nid oedd y Fantolen Ariannol wedi'i pharatoi mewn amser i'w atodi i Becyn y Rhaglen Llawn. Bu dosbarthu'r Fantolen i'r Aelodau yn ystod y Cyfarfod. Yn dilyn cyfle i arolygu'r Fantolen, Cyng. Christine Roberts yn Cynnig a Cyng. Richard Parry yn Eilio i dderbyn y Fantolen. **PENDERFYNWYD** derbyn Mantolen Ariannol Mis Tachwedd 2024.

24/209 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn :
Cyng. Nicola Roberts yn adrodd ar y canlynol :

- Yn dilyn y storm ddiweddar, Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol o'r difrod i'r coed o gwmpas Afon Cefni ac yn cyd-weithio gyda'r Cyngor i ddiogelu'r safle;
- Cyfarfod ar y cyd gyda'r Heddlu I edrych ar y problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol o gwmpas y dref
- Modd cael arian grant ar gyfer Camerâu CCTV ychwanegol;
- Edrych ar gais grant i adnewyddu goleuadau'r Parc Sglefrio;
- Prinder cyllideb o fewn y Cyngor Sir ac yn edrych ar doriadau heb amharu ar wasanaethau cyhoeddus;

PARHAD 24/209

- **Ymgynghoriadau** : Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol;
- Strategaeth Leol Ynys Môn ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd;
- Gosod Rhenti Cyngor Sir Ynys Môn 2025-2026 ;
- Diolchgar am unrhyw fewnbwn ac ymateb trigolion yn holl bwysig;
- Cysylltiadau trydan wedi'i drwsio i drigolion oedd heb drydan yn dilyn tywydd garw.

Cadeirydd yn diolch i Cyng. Roberts am ei mewnbwn.

24/210 Gohebiaeth a Materion Newydd :

Gohebiaeth berthnasol wedi'i atodi i Becyn y Rhaglen Llawn ynglŷn â'r isod :

1 Heddlu Gogledd Cymru : Dweud eich Dweud ar Gyllid Plismona yn Ogledd Cymru - 02.12.2024;
2 Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru – Prosiect Bro : 02.12.2024;
3 Corsydd Calon Môn - 07.12.2024.

24/211 Gohebiaeth : Er Gwybodaeth :
Materion wedi'u hanfon trwy E-bost yn ystod mis Tachwedd 2024 :

1 Un Llais Cymru - Derbyn
2 Materion Eraill - Derbyn

24/212 I Ystyried Unrhyw Fater Brys Gan y Cadeirydd :

1 Cadeirydd yn diolch i Staff y Swyddfa a'r Tirmon am y gwaith paratoi tuag at Achlysur Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen yn y Dref. Cyng. Nicola Roberts yn ychwanegu bod canmoliaeth fawr i'r noson i gyd.
Cadeirydd yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda I'r Staff ac Aelodau'r Cyngor Tref.

24/213 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf : Nos Lun 20fed Ionawr 2025

CYNG. TERRY JONES
CADEIRYDD